## Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Medi 2023

Amser: 09.01 - 09.18

**Preifat**

---

### Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am yr ychwanegiad a ganlyn i agenda dydd Mawrth:

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymrwymiadau Sero Net (45 munud)

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.45pm.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod wedi cytuno i ffotograffydd allu cael mynediad i'r Siambr yn rheolaidd dros yr wythnosau nesaf er mwyn creu llyfrgell fwy cynhwysfawr o ddelweddau y gellir eu defnyddio ar gyfer gohebiaeth gorfforaethol yn ogystal â chan yr Aelodau eu hunain.

**Dydd Mercher**

Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes atgoffa eu Haelodau bod amseriadau ar gyfer cyfraniadau wedi'u cyfyngu yn ystod dadleuon 30 munud y gwrthbleidiau. Dywedodd y Llywydd hefyd y bydd yn galw siaradwyr yn y fath fodd ag i sicrhau bod modd mynegi cydbwysedd barn yn ystod y trafodaethau.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

Dydd Mawrth 10 Hydref 2023

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Safon Ansawdd Tai Cymru (30 munud)~~ *– wedi'i ohirio tan 24 Hydref*

Gwnaeth Heledd Fychan gais am ddiweddariad ar amseriad datganiad llafar ynghylch newidiadau posibl i Gyllideb 2023-24. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn gwneud datganiad llafar yn ystod mis Hydref.

### 3.3 Amserlen y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 18 Hydref 2023 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-06-1345: Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Rhianon Passmore (Islwyn) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio - Amserlen Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Amserlen Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes yr ymatebion gan y Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch trefniadau ar gyfer craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu ar y Bil.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais y Pwyllgor Deisebau i gynnal dadl ar ddeiseb P-06-1345 ar 18 Hydref 2023, ac i ddadl ar ddeiseb P-06-1356 gael ei threfnu yn ddiweddarach.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd ynghylch slotiau cyfarfodydd

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais Pwyllgor y Llywydd i gwrdd fore Mawrth 7 Tachwedd 2023. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor barhau i ofyn am slotiau cyfarfod amgen pan fydd angen iddo gwrdd y tu allan i'w slot cyfarfod penodedig.